YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LII. MEDI 1952 RHIF 9.

Nodiadau'r Golygydd

WEINDIO'R CLOC YN ABERYSTWYTH.

DIM ond yn ei gartref y bydd dyn yn weindo'r cloc yn gyffredin, oblegid hawl y penteulu ydyw yn ei dŷ ei hun. Bûm innau yn weindo'r cloc yn y Capel Bach yn Aberystwyth ar fore Sul o Awst. (*Codi pwysau* yw'r hen air Cymraeg am y weithred hon, hen ymadrodd a ddisgrifiai'r arfer o godi'r plwmeni. Y mae perthynas i mi yn sôn hyd y dydd heddiw am *godi pwysau* ei oriawr cyn mynd i'r gwely !). Capel bychan cartrefol yw'r Capel Bach, aelwyd mewn gwirionedd sydd yn eich denu i wneud peth mor eofn a weindo'r cloc yno. Pwy feddyliai am wneud y fath beth yn un o'r capeli mawr urddasol ?

Gwaith hyfryd oedd anwylo'r allwedd am ennyd a'i th ci a gweld y bysedd a welais gynifer o weithiau o'm blaen yn ystod y gwasanaethau. Daeth blynyddoedd hapus yn fyw o'm blaen a phob rhif yn deffro rhyw atgof. Beth pe gallwn ei droi yn ôl tua naw mlynedd a gweld eto'r hen wynebau yn canu am hanner awr wedi unarddeg ar fore Sul ? Y Doctor, Grindley, Mrs. J. E. Jones, a Jones Hepworth a'i lygad direidus; nid oes gloc yn eu byd hwy bellach. Ond, ysywaeth, ni fedrwn ei droi yn ôl ac yr wyf yn sicr na ddymunai un o'r gwyrda hyn weled troi'r cloc yn ôl na'i weld yn sefyll chwaith. Nid yw'r *spring* cyn gryfed ac a oedd hi acw ond y mae'n dda gwybod fod rhywrai yn dal i weindio'r cloc yn Aberystwyth.

BETH YW HI O'R GLOCH YNG NGHYMRU ?

Y mae tuedd ynom i goelio cloc, yn enwedig os bydd yn gloc mawr yn union fel y mae llawer yn coelio papur newydd ar bwys ei gylchrediad eang. Y gwir yw wrth gwrs fod clociau, fel pawb arall, dan wasg rhyw wendid neu'i gilydd yn dweud celwydd ar

brydiau. Y mae cloc mawr Ysgol Sir Aberdâr, er enghraifft, yn ddau wynebog. Fe'm twyllodd lawer gwaith i gredu fy mod yn ddiweddar ar fy ffordd i'r Hen Dŷ Cwrdd yn y bore ond erbyn cyrraedd yr ochr arall fe ddengys yr hen wag dichellgar fod gennyf bum munud yn sbâr ! Eto, mewn ambell gartref yng nghefn gwlad fe gedwir y cloc rhyw ugain munud neu fwy o flaen ei amser bob cynnig, ac os digwydd iddo arafu, fe ddywedir, "*Ma'r hen gloc 'ma'n slô, dim ond cwarter awr yw e'n ffast*" ! Gwyddom am gloch cloc larwm, gwyddom am gloch y Llan ond wedi'r cyfan nid yw'r clychau yma a'u cymrodyr afrifed yn ddim namyn simbolau o'r Gloch fawr sy'n rheoli'r byd. Dyma ..*Y Gloch*". Ac mewn un ffordd neu'r llall mae pawb yn ceisio osgoi hon a'i dylanwadau. Mae pethau yn dechrau ac yn dod i ben, mae pethau heb eu gwneud ac ar hanner ac y mae pethau yn *mynd i ddod* ac os y goddefwch chwi droi ymadrodd, y mae pethau yn *dod i fynd* eilwaith. Fel y disgwyliech, *Y Gloch* sy'n penderfynu'r sefyllfa. Oni bai am *Y Gloch* ni phoenai neb am atgof na gobaith, am yfory na marw. Haera rhai gwyddonwyr mai tân fflamboeth sydd yng nghanol tro ein byd ond gwell gennyf gredu ar brydiau mai rhyw anferth o gloc-larwm sydd yno a dolef ei ddyhudd-gloch yn oerganu cnul pob dydd.

Cloc yr Eisteddfod.

Cyn i mi ddechrau barddoni'r llith yma yn y Wers Rydd fy mwriad oedd sôn am Eisteddfod Aberystwyth, ac felly er mwyn cadw'r undod yn ddi-dor rhaid sôn am gloc yr Eisteddfod. Y mae hwn yn ffigwr gweddol gyfreithlon oblegid fe edrychwn ar ein gŵyl fel rhywbeth a all ddweud wrthym beth yw hi o'r gloch yng Nghymru. Y mae'r Eisteddfod erbyn hyn yn gwbl Gymraeg o ran iaith, ac fe glywsom ddarogan gan bapur mawr Toriaeth yng Nghymru tua blwyddyn yn ôl y byddai hyn yn golygu difetha'r sefydliad. Wedi llwyddiant anarferol Eisteddfod Aberystwyth, er gwaetha'r tywydd, ni welais air o'r ddadl hon yn y papur bondigrybwyll hwnnw. Nid oes brinder ceisiadau am Eisteddfodau'r dyfodol chwaith ; gwybydded y gwrthwynebwyr felly fod yr Eisteddfod Gymraeg wedi dod i aros am gyfnod go hir. Pa hyd ni wyddom eto, ond y mae'r cloc yn cael ei weindio'n gyson a'i gerddediad yn iachus. Dilynais yr Eisteddfod yn bur ffyddlon ers deuddeg mlynedd bellach ac ni welais erioed o'r blaen gymaint o bobl yn y pafiliwn ar fore Llun ac a welais eleni. Dyna faint o'r gloch ydyw ar fater iaith yr Eisteddfod ac aed clod i'w Hysgrifennydd ifanc a'i bwyllgorau cywir am gynnal yr hen ŵyl yn ei gogoniant. Hyn yn unig a obeithiaf, na welsom gloc ddau wynebog a bod y Cymru eiddgar a welsom ar y Maes yn parhau yn ei ffyddlondeb i'r iaith a'i llen wedi gado'r torfeydd.

Y Bardd o Hyd yn Ben.

Yr oeddwn yn cyd-letya ag un o ysgrifennwyr blaenaf papur Saesneg enwog dros yr ŵyl a dyma a ddywedodd un nos, "Fe'm synnir fwy a mwy bob blwyddyn gan wrogaeth gwerin Cymru i'r bardd. Er cystal y corau a'r bandiau a'r unawdwyr ni chyfrif eich pobl iddynt weld yr Eisteddfod oni welsont y bardd yn cael ei goroni neu ei gadeirio. Mor wahanol yw'r sefyllfa yn Lloegr, yno, rhaid i'r bardd lewygu mewn garet neu ymguddio yn un o gelloedd cyfrin Rhydychen. Ar wahan i'r bardd-ddramodwr nid oes iddo ronyn o gyhoeddusrwydd na nemor barch". Dyna farn Sais goleuedig ac oni fynegodd Sais enwog arall yr un farn gan mlynedd yn ôl? Wedi clywed gweithiwr cyffredin o Gymro yn sôn am feirdd a barddoniaeth, meddai George Borrow yn *Wild Wales*, "*What a difference, said I to my wife, after we had departed, between a Welshman and an Englishman of the lower class. What would a Suffolk miller's swain have said if I had repeated to him verses out of Beowulf or even Chaucer, and had asked him about the residence of Skelton*".

Beth sydd i gyfrif am le'r bardd yn y Gymdeithas Gymraeg? Nid digwyddiad (*accident*) mohono, oblegid nid digwydd y mae pethau mewn cymdeithas ond tyfu. Cyn belled ac y gallwn ddilyn llwybrau hanes Cymru tuag yn ôl gwelir fod y bardd yn cael y lle canolog, a hyd yn oed heddiw edrychir ar fardd y pentre gyda rhyw fath o barchedig ofn. Wyth gan mlynedd yn ôl a rhagor noddwyd y beirdd gan y tywysogion ac yr oedd lle blaenllaw iddynt yn y llys. Diogelir llyfr cownt un o'r hen feirdd yma yn y Llyfrgell Genedlaethol a dengys ei fod yn ennill cystal cyflog ac un o weinidogion y Goron yn y Senedd heddiw. Nid anniddorol codi hen frawddeg o'r cyfnod, "Gwedi marw y tywysogion y cymerth y gwŷr boneddigion a hanoeddynt o waed y tywysogion y gwŷr wrth gerdd (*beirdd*) atynt . . . ac yn amod i'r prydyddion gynnal iaith y Brittaniaid a chynnal yr achoedd a chynnal y gweithredoedd".

Y pryd hwnnw yr oedd gan feirdd ac athrawon beirdd safonau cadarn ac ni chai pawb ymgymeryd â'r grefft. Clywir heddiw am yr *awen* ac *ysbrydoliaeth*, dysgu crefft trwy goleg caled a chwrs saith mlynedd y byddai'r bardd gynt. Gwaherddid i fardd ddwyn dwy grefft megis prydydd a gof ac yr oeddynt dan reolaeth foesol a chymdeithasol gadarn. Ni chai'r bardd fyned i dafarnai na chwarae cardiau; ni chai ganu cerddi gwaradwyddus na chablu na dweud celwydd ar berygl colli ei rodd a'i radd. Penderfynwyd teilyngdod bardd mewn Eisteddfod, rhywbeth tebycach i Assizes na'r Eisteddfod fodern.

Y mae'r pethau yma yn werth eu cofio wrth fwrw golwg dros ddigwyddiadau Eisteddfod Aberystwyth. Clywsom W. J. Gruffydd, pencerdd ac athro beirdd yn chwipio beirdd y goron a llefaru'n groyw dros atal y wobr. Y mae dadlau brwd drosto ac yn ei erbyn a

Chynan o'r llwyfan yn rhoi i ni adlais o hen safonau'r beirdd drwy gyhoeddi mai "*gwell yw cynnal y safon na chynnal y seremoni*". Ond o gynnal safon oni ddylid ei chynnal yn gyson, ac onid oedd W. J. Gruffydd yn anghyson wrth weld "diefledigrwydd" yng ngherdd Harri Gwynn wedi bod yn ddall i'r un peth mewn cerddi a wobrwywyd ganddo cyn hyn. Pan ddywed y Parchedig Euros Bowen am yr un gerdd, "*mae moesoldeb y gerdd yn berffaith gadarn*", mae dyn yn dechrau cosi ei ben. Gwelir fod rhwyg yn rhywle rhwng safonau, a'r hen a'r newydd yn ymgiprys unwaith eto. Rhyfedd o fyd yw hwn, Uniongrededd ar ffurf offeiriad yn amddiffyn Anuniongrededd y canu newydd, ac arch-anuniongredwr fel Gruffydd ac amddiffynydd anghydffurfiaeth yn cynnal uniongrededd barddonol. Dyma gloc na fedr neb ei ddeall! Pa sawl wyneb sydd iddo, dywedwch?

Wedi Crwydro, Crynhoi.

Wedi crwydro ymhell rhaid crynhoi pen i'r mwdwl a dweud gair neu ddau am faterion eraill o ddiddordeb i'r Eisteddfodwr. Ni all un gŵr fyth ymweld â holl gyfarfodydd yr Eisteddfod—neu a ddylwn ei galw yn *Eisteddfodau* efallai—oblegid dyna beth ydyw. Eisteddfod fawr y pafiliwn, Eisteddfod Cynan a'r Orsedd, Eisteddfod y beirdd yn y Babell Lên (a oedd yn fwy eleni, ond eto yn llawer rhy fach i'r cannoedd a ymwasgai at ei drysau) ac yn olaf, nac anghofier eisteddfodau niferus y dramau a'r cyngherddau. Ac yn wir, yn wir, onid yw yn bryd i ryw awdurdod gwtogi nifer y nosweithi llawen a gynhelir ynglŷn â'r Eisteddfod? Cofiwn amdanynt yn dechrau yn llawn hwyl a sbonc ond erbyn hyn y maent yn mynd i rigol ffasiwn ffôl gan ddirywio i fod yn gyrddau hel arian os nad gwaeth na hynny.

Terfynaf drwy roddi englyn gwych Beirdd Ceredigion i'r Orsedd, englyn a luniwyd ar y pryd mewn ymryson. Dyma fe,—

"Nid ei chledd ond ei gweddi—a'i harddwch
A rydd urddas arni;
Mae nodded tu mewn iddi
I'r Gymraeg rhag ei marw hi".

Byddai Iolo Morgannwg, lluniwr yr Orsedd a'r weddi yn ymfalchïo yn y deyrnged hon i'w weithgarwch. "Faint o'r gloch yw hi? Wel! Wel!!... Gwell mynd i'r gwely a sychu'r pin".

Profiad o fod yn golledig ar Ynys Ia.

Gan y diweddar Athro M. B. Owen, M.A., B.D.

Wedi ei rwymo mewn cyfrol yn cynnwys amryw lyfrynau yn y Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin, ceir hanes am wyth o longwyr a adawyd ar ôl yn Greenland yn 1630, trwy anffawd, a'r modd y darfu iddynt lwyddo i oroesi am naw mis a deuddeg diwrnod. Un o'r wyth yw awdur yr hanes. Dwylo mewn llong hela morfilod perthynol i gwmni yn Llundain oeddynt, a foriodd o Lundain ar y cyntaf o Fai, 1630, a chyrhaeddwyd porthladd yn Greenland mor uchel i'r Gogledd a 750 milltir o'r pegwn ar Fehefin 11eg. Yr oedd tair o longau gan y Cwmni yn treulio'r haf ym môr y gogledd i ddala morfilod, ac yr oedd gan bob un gwch hwyliau neu ddau at y gwaith o chwilio am helfa yng nghilfachau'r môr. Mae'n amlwg y byddai'r cychod hyn yn morio gyda'r glannau am bellteroedd oddi wrth y fam long yng nghwrs eu hymchwil. Y dydd olaf i gychwyn yn ôl cyn bod y môr yn rhewi oedd Awst 20fed.

Aeth dwylo'r cwch a adawyd ar ôl yn rhy bell i'r gogledd i fedru cyrraedd yn ôl i'r porthladd at y fam long yn erbyn y gwynt croes a chwythai, ac wedi cyrraedd nid oedd y fam long mwyach yno, ac amlwg oedd i'r capten gredu fod y cwch a'r dwylo wedi trengu. Rhaid oedd yn awr wynebu'r gaeaf yn y wlad anghysbell oer, a gwaeth na'r cwbl nid oedd ganddynt ymborth o gwbl na dillad ond a wisgent, na chysgod ond hwyl y cwch. Treuliwyd yr ychydig ddyddiau cyn i'r ia wneud morio yn amhosibl mewn hwylio i'r de nes cyrraedd ardal y ceid ceirw ynddi. Llwyddwyd i ladd nifer a'u cludo i hafan lle yr oedd sied gan forwyr Norwy i ferwi bloneg morfilod. Yn y sied honno y penderfynwyd aros. Gwnawd caban o'i mewn o goed a chrwyn a defnyddiau lleol eraill er mwyn cynhesrwydd a llwyddwyd i gynnau tân a'i gadw i fynd am yr holl amser. Yn Hydref daeth yn nos ddidor a barhaodd hyd ganol Chwefror, ond llwyddwyd gyda gwêr a llinyn i gael canwyllau, a gwnai crwyn y ceirw wasanaeth gwely a gwrthban iddynt. Ar y cyfan buont yn ddigon diddos yn y caban er gwaethaf yr ystormydd parhaus a'r tywyllwch, ond cael bwyd oedd y gamp, canys ni ellid cyrraedd gwlad y ceirw gan yr ia, ac ni chaent ond cig a dŵr yn ystod yr holl amser. Ar un adeg bu raid bodloni ar bedwar pryd o gig yr wythnos, ond yn ffortunus pan ofnent fod newyn yn eu haros, daeth nifer o eirth y gogledd atynt gyda'r bwriad o gael gwledd, ond bob tro yn rhoi gwledd i'r morwyr, a chanmolent gig arth ei fod gystal a chig eidon. Gyda dyfodiad mis Ebrill anturiai'r cadnoed ddod allan o'u ffeuai i ddala'r adar a ddychwelent i'r wlad, a buont hwythau yn flasus fwyd i'r cwmni. Ym mis Mai

ceid wyau ac adar i amrywio'r ymborth, ac nid oedd eisiau ymprydio o hynny ymlaen. Diddorol y ffaith fod y cwmni yn teimlo'n grefyddol iawn yn eu trybini a chadwent y Sul yn ddiwaith ac yn ddefosiynol. Ym Mehefin daeth llongau'r Cwmni eilwaith i'r helfa, a hwythau yn ôl yn eu lle ac wrth eu gwaith, heb fod lawer gwaeth o'u helbul ac yn ymffrostgar o'u profiad eithriadol.

[Daeth hon i'm llaw ychydig wythnosau cyn marw'r Athro annwyl o Goleg Caerfyrddin. Ni chredaf iddo ysgrifennu dim wedyn.—*Gol.*].

'LUNED BRYNIE.

DIM ond rhyw unwaith hyd y Foel
Y gwelais 'Luned Brynie,
A minnau adref wylie haf
Mewn myfyr ar hen lwybre.

Yn stacan fechan ar ddwy trôd,
A'i hôd, tua pheder rhywle ;
A hyfryd ydoedd rhos ei grudd
A'r wawrddydd ar ei haelie.

"A phwy yw'r lodes fawr ?' 'be fi
—"Myfi yw 'Luned Brynie"—
'Rwy' wedi bod yn siop dros mam,
—A 'nawrte—pwy y'ch chithe ?"

NANCE.

CYSGOD.

HEN wyliwr swil y golau—di-bwyntil
Da baentiwr pob delwau ;
Yn y gwyll mae hwn yn gwau
Ei gestyll a'i holl gastiau.

Cei Newydd. JAC H. DAVIES.

Ffwndamentaliaeth.

Gan y Parch. Iorwerth Jones, B.A., B.D.

(*Parhad*).

Safbwynt Cadarnhaol.

Pennaf tasg y Cristion yw tynnu sylw ei gyd-fforddolion at y trysor dihafal a geir yn yr Efengylau. Nid oes amheuaeth na thueddodd rhai modernwyr, o dan ddylanwad astudiaeth gyfreithlon o destun a chefndir y Beibl, i bwysleisio gormod ar ochr ddinistriol beirniadaeth. Dylai pob Cristion meddylgar gydnabod gwerth beirniadaeth deg, fel y gwnaeth Barth, ond ffolineb ddi-fudd yw canolbwyntio ar agweddau negyddol ysgolheictod y ganrif ddiwethaf, tra chollir gafael ar her a bendith yr hen gyfrol yng nghanol y llwch academaidd. Ffolineb yw codi'n trwynau ar y pridd i'r fath raddau nes colli golwg ar y trysor.

Y traethiad gorau a welais yn Gymraeg ar arwyddocâd a chyfraniad diwinyddiaeth Feiblaidd ein hoes ni yw anerchiadau darlledig y Prifathro Gwilym Bowyer, a gyhoeddwyd yn y *Dysgedydd* ym Mawrth, Ebrill a Mai y llynedd. "Ni ddylid disgwyl gormod o gyfeiriad beirniadaeth", medd ef; "symud rhwystrau yw ei gwaith hi". Cyfeiria at feirniadaeth Luther ar yr Ysgrythurau, ac at ei ddisgrifiad ohonynt—"y crud sy'n dwyn y Gair". Di-fudd yw beirniadu cymaint ar y crud nes anwybyddu'r mab sydd ynddo. "Wedi cyfnod o feirniadu onest a llym, gwelir tuedd unwaith eto i ofyn beth yw ystyr a neges y Beibl".

Camp fawr Barthiaeth fu peri i arweinwyr yr Eglwys goleddu safbwynt mwy cadarnhaol tuag at y Beibl. Ar y cyfan nid oes eisiau rhybuddio dynion rhag Beibl-addoliaeth yn awr—ag eithrio mewn cylchoedd cyfyngedig. Perygl digamsyniol mwyafrif llethol poblogaeth Cymru erbyn hyn, heb sôn am Loegr, yw anwybyddu'r Beibl yn hytrach na'i addoli. Y mae llawer mwy o fygythiad i achos Crist heddiw o gyfeiriad y miliynau ysgafala nad ydynt yn credu dim yn y Beibl nag oddi wrth y cymharol ychydig sy'n dal i gredu yn ei anffaeledigrwydd.

Un o ddatguddiadau tristaf y rhyfel mawr diwethaf oedd yr olwg a gawsom drwy gaplaniaid ar yr anwybodaeth affwysol ynglŷn â'r Beibl ymhlith y rhan fwyaf o'r bechgyn a'r merched yn y lluoedd arfog. Mewn un uned lleiafrif a wyddai pwy oedd awdur Gweddi'r Arglwydd! Mewn uned o'r A.T.S. rhyw dair allan o hanner cant a wyddai pam y dethlid y Pasg. Diau fod a wnelo adroddiad syfrdanol fel hyn â phwysleisio cymaint ar hyfforddiant crefyddol yn Neddf Addysg 1944.

'Cofadail Llenyddol.'

Gwendid y gwersi ar y Beibl yn yr ysgolion dydd yw y dynesir ato fel gorchestwaith llenyddol yn unig yn rhy aml. Cofiaf adolygiad W. J. Turner yn y *New Statesman* ar argraffiad newydd o gyfieithiad James Moffat o'r T.N. Chwarddai am ben dameg y mab afradlon yn nhrosiad Moffat mewn cymhariaeth—o safbwynt arddull—â throsiad Beibl Iago I. Ond nid oedd arwydd fod beirniad brathog y *New Statesman* wedi meddwl dim am werth crefyddol gwisg newydd i'r hen ddameg gyfarwydd. Addas yw cofio rhybudd T. S. Eliot yn un o'i erthyglau crefyddol : "Those who talk of the Bible as a 'monument of English prose' are merely admiring it as a monument over the grave of Christianity".

Nid yw'r gwybodusion anghrediniol, mwy na'r Philistiaid didoreth, yn trafod y Beibl o ddifrif. Dichon fod rhai ohonynt yn ei barchu fel darn sylweddol o hen lenyddiaeth fawr, fel y mae'r bachgen ieuanc cyffredin (megis y dywedodd Woodbine Willie) yn parchu henaint a chymeriad ei nain, ond ni fyddai'n dychmygu am foment y dylai gyd-fynd â'i syniadau hen-ffasiwn. Yn y modd hwn y meddylia'r dyn modern am y Beibl—pan feddylia amdano o gwbl.

Arglwydd yr Ysgrythur.

Yr unig ateb boddhaol i'r difaterwch hyn yw tynnu sylw mewn amser ac allan o amser at y trysor nas ceir yn unman arall ond y Beibl. "Fe ddarllenwn y Beibl", meddai'r Prifathro Bowyer, "er mwyn adnabod Un sy'n llawer mwy na'r Ysgrythur, Un, ar yr un pryd, na ellir ei adnabod ar wahân i'r Beibl". Gallwn ninnau, fel yr anghredinwr, ryfeddu at freuder rhannau o'r llestr sy'n cynnwys y trysor. Gallwn fethu deall pam y cynhwyswyd llyfrau gwaethaf yr H.D. ym Meibl yr Eglwysi Protestannaidd, a gadael allan lyfrau gorau'r Apocryffa ; y maent yn fwy hanesyddol, meddir, ond y mae gweithredoedd y naill gymaint yn fwy amddifad o ysbryd Crist na syniadau'r lleill. Ond yn amlach o lawer na hynny byddwn yn rhyfeddu gyda deiliaid Cred at ogoniant yr Hwn y mae'r Ysgrythur yn grud iddo, y Crist y mae'r proffwydi'n edrych ymlaen ato a'r apostolion yn cyfeirio'n ôl ato.

Bydd Eglwys Rufain yn honni'n fuddugoliaethus mai hyhi a greodd yr Ysgrythurau oherwydd mai hyhi yn ystod y canrifoedd cynnar a ddewisodd y llyfrau a oedd i fod yn y Beibl. Geill Protest aniaid fforddio ystyried, pan dueddant i wneud eilun o'r Beibl, mai'r Eglwys Gatholig a ddaeth ag ef i ni. Ond pan dueddir i wneud eilun o'r Eglwys dylid cofio mai'r Efengyl a ddaeth â hi i fod. Nid yw'r Eglwys yn ben, ac nid oes ganddi hawl i dra-arglwyddiaethu ar y T.N. : y tu ôl i'r Eglwys a'r Testmanent Newydd y mae'r Efengyl y cyfododd y ddau ohoni.

"Ni ddibynna gwirionedd yr Efengyl ar awdurdod yr Eglwys, dibynnwn ar yr Eglwys yn unig am ein gwybodaeth o'r Efengyl", meddai Gwilym Bowyer. "Gwaith yr Eglwys yw ein cyfeirio at yr Efengyl . . . Wedi ein cyfeirio at Grist deuwn at Un sy'n farnwr ar yr Eglwys ac arnom ninnau". Ac Un sy'n farnwr—peidiwn ag anghofio—ar y Beibl ei hun. Nid oes raid i ni bigo a dewis rhwng gwahanol lefelau'r Ysgrythurau—gwnaeth Crist ei hun hynny eisoes.

Crist, nid y Beibl fel y cyfryw, yw Gair Duw. Mahometaniaeth sy'n dweud, "Y Gair a wnaethpwyd yn gyfrol". Dywaid Cristionogaeth, "Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd". Dyna pam y mae'n ddiogelach i ddiwinyddion yr Eglwys eu hystyried eu hunain fel "diwinyddion Beiblaidd". Geill "diwinyddiaeth Feiblaidd" olygu pob math o au-ddysgeidiaeth, yn ôl y darnau o'r Beibl y bydd y diwinydd yn cael ei ddenu atynt, ond bydd yn llawer anos colli'r ffordd wrth ganolbwyntio ar Iesu Grist a barnu'r cyfan yn Ei oleuni Ef.

Gwerth yr H.D.—a'r rheswm pam y cedwir ef yn y Beibl Cristionogol—yw na ellir deall dysgeidiaeth na gwaith yr Iesu'n llawn ar wahân i ysgrythurau'r genedl y magwyd ef fel aelod ohoni. Ond uchafbwynt y Beibl, ym mherson a gweinidogaeth y Meistr, a rydd inni safon i farnu gwerth—a diffyg gwerth—yr hyn a'i rhagflaenodd. Gellir olrhain llwybr digamsyniol yn hanes yr Iddewon, a arweiniodd yng nghyflawnder yr amser i ddyfodiad y Meseia, ond y Meseia Ei Hun a ddangosodd inni mor aml y collwyd y llwybr gan y genedl freintiedig a gwrthnysig a'i cododd ac a'i croeshoeliodd.

(*Diwedd*).

Salmau'r Mynydd Ddoe ac Echdoe.

AMLINELLIAD O DDATBLYGIAD EIN CANIADAETH GYNULLEIDFAOL.

Gan Haydn Morgan.

Salmau'r Undodiaid.

II.

Y Mesurau a'r Alawon.

Wrth edrych yn ôl, ni chanfyddwn ganrif yn ymestyn ymhellach na'r gorwel megis ; gwelwn ddoe'n agos, drwy'r hanesion amdano. Ond heibio'r ganrif, y mae'r adnabyddiaeth yn pellhau a'r cofnodau'n troi'n ystadegau, os na wneir patrwm adfywiol ohonynt, a dyna waith yr hanesydd. Ansicr yw'r cof

wrtho ef ei hun, hyd yn oed dros dymor bychan, a felly cawn eglurach golwg ar echdoe drwy'r ffeithiau moel, yn enwedig mewn materion cerddorol.

Pwy all gofio'r caneuon a'r mesurau, drwy'r blynyddoedd? Onid yw'n anodd sylweddoli na chlywodd Josiah Rees erioed y dôn *Hyfrydol* (M.8.7.D.), sydd mor hen ffasiwn Gymreig i ni, nac ychwaith Tomos Glyn Cothi'r dôn *Ambrose* (M.S.) hynafol ei naws. Nid ffeithiau dirgel mo 'rhain, ond manylion eglur y llyfr tonau.

Yn anffodus, fe dueddwn ni'r Cymry, lawer mwy at siarad nag at ysgrifennu, felly, tenau yw ein cofnodion. Gwyddom am chwalu hen ysgoldy Gellionnen a'r llofft arno tua amser y Parch. W. J. Davies (Dowlais) (yr oedd yno i sicrwydd cyn 1776), lle cadwai Josiah Rees ei ysgol, *dyna fandaliaeth*! Ond ni wyddom a oedd ysgol gân i'r côr bach, yn unig ar y mynydd bryd hynny neu a oedd pawb yn "canu part" wedi dysgu solffa yn ysgoldy bach y Graig, lle cadwai John Evans ysgol oddiar 1863. (Gwnawd y manse cyntaf ohono "Bryn-y-Wawr" yn).

Fe gofia rhai am wella'r capel (1873), a newid yr hen do cerrig, a symud yr hen stâr feini, a ddringai i'r oriel y tu allan, ond pwy all ddweud ai'r cantorion yn unig a aeth i'r llofft o hyd, drwy gwstwm. A ddefnyddiwyd yr amser hwnnw, lyfr solffa Ieuan Gwyllt 1864, neu'r Atodiad iddo 1870? Wrth gwrs yn yr hen nodiant y daeth y casgliad enwog hwnnw allan gyntaf.

Clywn am eisteddfota ar y mynydd, a thynnu'r ddwy ffenestr ganol allan, y tu cefn i'r llwyfan, ond a oedd hyn cyn adnewyddu'r capel? Mae hynny'n bosibl; yr oedd dŵr y ffynnon yn enwog, a lletya yn y ffermydd a'r Spa'n sefydliad. Enillodd Côr Ivander Griffiths, Pontardawe (cyfansoddwr *Diadem*) y wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin, 1867; yr oedd corau lleol wedi dod. Dim ond corau bychain y capeli a aeth i gystadlu o'r blaen, yn ddigyfeiliant yn yr eisteddfodau cerddorol bach lleol cyntaf, tua chanol y ganrif, pan ddechreuwyd cyhoeddi canigion a darnau moesol (e.e. *Y Canor Dirwestol*, 1845 gan y Parch. D. T. Williams, Tydfylyn, Merthyr). Casgliad pwysig iawn oedd hwnnw, a ddaeth allan yn rhannau 1845—48 (yr un Cymraeg cyntaf i ddangos amser y metronome) sef *Telyn Sion* (yn cynnwys tonau a darnau) dan olygiaeth Rosser Beynon, Merthyr, "apostol canu cynulleidfaol". Dywedir mai ef a Moses Davies (tadcu'r gantores enwog Mary Davies, Royal Academy) a wnaeth fwy na neb arall, i newid yr hen ddull o ganu tri llais.

Yr oedd hynny yn amser John James. Gwyddom am hwnnw'n gwrthod tynnu'i lun, pan ddaeth y camera, ond ni wyddom a gadwodd ef y gerddorfa yng Ngellionnen hyd at ddiwedd ei weinidogaeth enwog (1816—64). Ni chredwn i'r harmonium ddod yn ei amser ef, er hynny gwyddom am gyhoeddi yn 1859, y *Welsh*

Church Tune and Chant Book (Rev. T. Jones, Llanengan) y llyfr a ddefnyddiwyd wedyn wrth yr offeryn. Y ffidil a'r clarionet, a gyfeiliodd y côr, ar y mynydd cyn hyn ; ffurf eglwysig yn wrthwynebol efallai i ddulliau hwylus y Methodistiaid. "Caned pawb yn y gynnulleidfa" meddai Wesley (ni hoffodd ganu cynganeddol, nac anthemau a'u hail adrodd o frawddegau), ond ysgrifennodd Josiah Rees am "lawer iawn o ryw fath o ganu yn ein hardaloedd" gan gyfeirio yn ddiamau at ganu yr ymneilltuwyr.

Aneglur yw'r cyfnod hwn i ni. Y mae'r emynau ar glawr, ond nid yw'r tonau. Yn 1811, pan gyhoeddwyd *Gwaith Prydyddawl*, sef holl hymnau Pantycelyn, mewn un cyfrol eglurwyd fod enwau'r tonau hynny, a oedd o Gasgliad Dr. Rippon, mewn llythrennau Rhufeinaidd, ond bod rhai enwau mewn llythrennau *Eidalaidd*, o donau a oedd heb fod yn argraffedig erioed, tonau o waith cerddorion Cymreig.

Yr oedd tonau ar gof a'r rheiny yn adnabyddus yn ôl eu henwau. Sylwn ar gasgliad bychan o emynau, *Swp o Ffigys*, ar gyfer ysgol Sul (*sylwer*) y Mynydd Bach (a Chlydach hefyd) 1821. Y mae dau gyfarwyddiad ar gyfer y canu (*Galarus a Gorfoleddus*) ac fe gawn enwi deg o donau. Gan y byddai cyfathrach rhwng y cynulleidfaoedd hyn a Gellionnen, tybiwn y byddai'r tonau'n gyfarwydd i gynulleidfa'r mynydd hefyd (Cannon Street, Priestley, Ashley Sion's Glory, Pleasant Morning, Wenlock, Calvary, Mynydd Bach, Lovely Peggy (moralised), a Bell Brook). Ond ni allwn fod yn sicr, *oblegid ymddengys fod mesurau'r hymnau Undodaidd, yn wahanol.*

Dyma donau'r cyfnod, a chawn rhyw gant o'r "peroriaethau mwyn Seisnig" yn y casgliad cyntaf o salmau a hymnau ar gyfer *Ysgolion Sabbothol* (*sylwer*) yr eglwys yng Nghymru (gan y Parch. Robert Davies, Rhuddlan, 1824). Gwelwn y cwestiwn o ganu cynulleidfaol yn codi ; yn yr olaf hwn annogir y gynulleidfa i ganu, a chawn y geiriau hyn "Y mae'r arfer o drosglwyddo'r gwaith hwn yn gwbl i ryw nifer bach o ddynion . . . yn llwyr ddiystyr . . . ac y mae ymgeisiadau anghelfydd a gwladaidd y cantorion, yn rhy fynych yn peri anfodlonrwydd, yn hytrach nag adeiladaeth".

Dyma'r amser, pan ddaeth *Cyfansoddiad o Hymnau* Tomos Glyn Cothi allan (1811, 1822), rhyw gant ohonynt ar y salm fesurau, a thri neilltuol (M.7.6., M.6.8. a M.8.8.6.D.). Cawn y ddau olaf yn y Perlau Moliant (155 a 305). Fe fyddai tonau bywiog yr ymneilltuwyr, hefyd, yn ffitio'r hen fesurau, e.e. *Miles Lane*, M.C.

A gawn ni adolygu mesurau'r Undodiaid? Ein llyfr hymnau cyntaf enwadol oedd *Emynau o Fawl a Gweddi* y Parch. R. J. Jones, 1878 ; enwir dwy dôn wrth bob emyn. Ceir amrywiaeth mesurau (dodir M.N. ambell waith). Yr oedd digon o alawon erbyn hyn a'r ysgol gân yn sefydliad cryf, a hanner canrif o gyhoeddi tonau, wedi aru'r tir. (*Y Perganiedydd* J. D. Jones 1846, *Zion Melodies* 1851,

Cerddor y Cysegr E. Stephen (Tanymarian) 1859, *Cerddor y Tonic Solffa* Ieuan Gwyllt 1869—74).

Geilw llyfr R.J.J. i'n cof ffaith ddiddorol. Cyn ei gyhoeddi yr arfer yng Ngellionnen oedd rhoi emyn allan yn ddwy linell ar y tro, hen ddull oddi ar pan na fedrai'r lliaws ddarllen. Ond fe barhaodd hwn am dro wedyn. Felly ni wyddom a oedd salmau Iolo 1857, allan o brint neu a oedd *Casgliad o Salmau a Hymnau*, John Jones (tad R.J.J.) heb ddod yno (sef detholiad o Salmau Ed. Williams, ac o emynau T. G. Cothi a J. Rees). Gelwir M.N. ar y mesurau neilltuol, ond M.N.C. ar y M.7.6. neu fesur William Crismond.

Cofier mai peth newydd oedd y canu cynulleidfaol, ar y mynydd. Dywedir mai'r Parch. J. Jones ei hun a gymhellodd y gynulleidfa yno i godi. "Fe gyddwch yn canu, nid i mi ond i Dduw", oedd ei siars. Y côr yn unig a ganai ar yr oriel, safai pawb ar y weddi (sefyll neu benlinio, dyna'r hen reol Gatholig). Cofir heddiw, am hen bobl yn codi am y fendith.

Y mae'r cwestiwn hwn yn bwysig oherwydd os na chododd pawb cyn hyn, ni chododd pawb ychwaith, yn amser Josiah Rees. A gododd pawb yn y capel cyntaf i gyd (ond y rhai ar y llawr yn eistedd yn yr un newydd) ?. A oedd oriel i'r hen adeilad ? Mae'n sicr bod canu yno, oni chyfrannodd Josiah Rees at gasgliad o emynau D. Lloyd ? Efallai mai dim ond mewn rhai capelau bychain, tebyg i'r rhai Pentecostal heddiw, y byddai pawb yn mynd i hwyl ar rhyw ychydig o donau. Trueni na wyddem am ddadleuon cerddorol yr amser hwn. Credwn mai'r arfer oedd, fel ag yn y gymanfa heddiw, i ran o'r gynulleidfa gynnal y canu, ac i bawb godi am yr emyn olaf, a'r fendith. Ni chododd pawb yn arferol i'r emyn *cyn* cyfnod yr organ ac argraffu tonau ar yr un erwydd (stave), fel heddiw. Cefnodd un hen frawd ar y "peiriant canu" cyntaf yng Ngellionnen. Dim ond pan ddaeth y solffa yr aeth pawb i'r ysgol gân ac nid dim ond y côr yn unig. Dengys teitl *Hymnau a Thonau'r Ysgol Sul*, 1861, llyfr cyntaf Eleazar Roberts, arloeswr y solffa yng Nghymru, ym mha le y dysgwyd pawb i ganu cyn hyn.

Sylwn ar y mesurau Undodaidd. Ceidwadol ydyw'r duedd sydd ynddynt. Dim ond rhyw bedwar emyn ar fesur neilltuol a ddaw yng nghasgliad Josiah Rees (M.7.6., M.6.8., M.8.7. a'r M.8.8.6.D.). Cawn y ddau ddiwethaf yn y Perlau Moliant (262 a 308) yr olaf o waith Richard Rees gweinidog cyntaf Cefn Coed.

Yn yr *Ychydig o Hymnau Newyddion at Wasanaeth Undodiaid*, gan D. Phillips, Pil Mawr, Rhyd y Park 1814, fe geir 5 Mesur Byr, 5 Mesur Hir, 10 Mesur Wyth a Chwech ond dim ond un Mesur Neilltuol.

Cofiwn fod Pantycelyn erbyn hyn wedi ffurfio dros ugain o fesurau newyddion, ond ysgrifennu i gyfateb yr alawon Seisnig a

wnaeth ef. Felly, tybiwn nad oedd tonau'r diwygiad wedi taro'r Undodiaid yn gryf iawn.

Gyda'r Methodistiaid y daeth yr amrywiol fesurau a'r alawon bywiog. Yr oedd salm-donau ystwythach yn dechrau dod, yn *Sallwyr Playford* 1671 (e.e *London New*) daeth wedyn emyn-donau i'r *Musicians' Durne Companion to the Psalter* 1707 (e.e. *Uffingham*) ond wrth gwrs ar yr hen fesurau.

Ond wele John Wesley'n dod a'r mesurau newydd a'r alawon Ellmynig i'r wlad. Dylanwadwyd arno ef gan y Morafiaid a gwrddodd ar ei daith i Georgia, 1735—37. Daeth a'i *Foundery Tune Book* enwog allan yn 1742 a'i *Select Hymns with Tunes* yn 1765. Cyfansoddodd Charles Welsey dros chwe mil o hymnau, ar amrywiol fesurau, a daeth tonau newydd ysmala allan yn *Madan's Lock Hospital Collection*, 1769. Aeth yr alawon yma ar led.

Maes o law fe ddaeth rhagor o fesurau i'r Undodiaid yng nghasgliad T. Griffiths, Ciliau, *Mawl i Dduw neu emynau newyddion detholedig* (Rhan I), 1830, ceir rhyw bymtheg mesur (M.H., M.C., M.B., M.8.6., M.8.7., M.C.8.7., M.S. heb odl ganolog). O dan M.N. cawn 7.6., M.8.8., M.6.8., M.9.8., M.8.8.6.D., M.11.11., M.2.8., M.7.7.8.7. a M.B.D. O dan M.N.D. daw M.B.D. a M.6.8. Gelwir M.C.8.6. ar y M.C.D. Enwodd y dôn Lonsdale ar gyfer M.N.6.6.8.6.D.). Yn Iolo Morgannwg cawn rhyw ugain o fesurau, ond M.S. yw ei ffefryn.

Yn y Perlau Moliant cawn y M.H., M.8.7., M.9.8. (a dyblu'r tri) hefyd y M.H. (6 ll.), M.B., M.7.6., 7au, M.8.8.6., M.6.6.8., M.6.6.8.4. a'r M.8.8.8.8.11.11.

Yn yr hen Berlau Moliant cawn y M.C., M.8.7. (6 ll.) a'r M.87.87.88. Fe gawn ddau arall yn ei salmau, M.B.D. a'r M.6.8.

Ond ni welwn yma fesurau rhai o donau enwog y diwygiad *Ashley* M.C. a'i chydgan 8.8.8.4.7., *Bermondsey* 6.6.4.6.6.6.4. a *Lovely Peggy* (moralised) 8.8.8.6.D. Gallwn feddwl eto na fu lawer o weiddi a bloeddio tonau gyda'r Undodiaid oherwydd dyma'r alawon a roddai gwmpas. Ble mae'r M.8.7.4. (y dôn *Calvary*); fe welwyd hwnnw yn hymnau D. Dafis.

Nid ydym wedi sôn am y mathau o donau a ganwyd ddoe ac echdoe heblaw'r tonau ymneilltuol heini, a'r salm donau araf (a'u sain i bob sillaf). Fe ddaeth tonau eraill, alawon hynafol eglwysig, a chwiliwyd allan o lyfrau, a'r alawon gwerin a ddaeth i fod yn donau (ar ôl bod gyntaf i gyd, efallai yn garolau eglwysig) ond fe berthyn y rhain i'r canu *heddiw*.

Nid ydym wedi cyffwrdd ond ag un man bach, ar ymylon y testun enfawr hwn, sydd ynghlwm wrth holl gwestiwn litwrgi'r eglwys. Felly dymunwn gau'r amlinelliad lleiaf hwn drwy nodi alawon a fuasai'n gyfarwydd i'r Undodiaid cynnar. Cyfyngwn ein dewisiad i'r mesur cyffredin, yn y tonau mwyaf adnabyddus, yn amser hen gapeli cyntaf Caeronnen, a'r Ciliau a alltyblaca, neu ar

ôl hynny, pan godwyd Capel y Cribyn, ac yn nyddiau cynnar y Llwyn presennol, hyd at ddechrau Bwlchyfadfa, Capel y Bryn Phantydefaid ac efallai hyd at amser Rhydygwin (i nodi rhai o'n eglwysi). Eisteddwn yn ôl felly, i ddychmygu'r hen bobl yn canu.

FURMAN (Parch. Martin Madan).

{ d :dt$_1$ |d :f |mr :dt$_1$|d :—|m :rs |m :fe |s :— |— :s |ls :fm |rm :fm }

:||: ⌒ :||:

{ r :d |t$_1$:-s$_1$|ss :sf |m :-r|dd:dr |m :-m |fm:rd |t$_1$:-t$_1$|d :— |— :— }

MESSIAH.

{ s |d^1:—:m,r|d :—:l |f :-m:f |m :— :s |d^1 :— :r^1 |l :-s :fe :s :— }

{ s |d^1:—:m,r|d :—:l |f :—:m |r :— :r |m :-m :rd|s :— :s|d^1,r:m^{1}d^1:tl|s:— }

{ s |d :— :f |mf :r :-d |d :— }

Diweddwn gyda salm dôn yn yr hen ddull (yr alaw i'r dynion a'r meinlais i'r merched).

ST. MARY (M.8.7.) (trefniant 1819).

| | | |

Awst yr ail, 1952 yng Nghapel y Methodistiaid (Wesleaidd), Llanbedr, unwyd mewn glân briodas JANET MARIANNE, merch hynaf Capt. a Mrs. D. Jones, Minyrafon, Heol Newydd, Llanbedr a Mr. GEORGE MARTIN PEEP, C.M. (Athro ysgol yn W lverhampton), mab Mrs. E. L. Peep a'r diweddar Mr. E. L. Peep, Manor Road, Westbury-on-Tyne, Bristol. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Tudor Davies a T. Oswald Williams, M.A. "Hir ddyddiau i'r ddeuddyn".

Mehefin 7, 1952 yng Nghapel Bethesda, Llanddewibrefi unwyd mewn glân briodas, DAVID ELIAS GERALD JONES, mab Mr. a Mrs. Jones, Fountain House, Llanbedr a BETSY LOUSE FRAMTON o Landdewi. Gwasanaethwyd gan y Parch. J. Ellis Williams, y Gweinidog a'r Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr. Boed iddynt oes hir a phob dedwyddwch.

Gorffennaf 5, 1952 yng Nghapel Caersalem, unwyd mewn glân briodas MENNA, merch Mr. a Mrs. Enoch Jones, Brynderw, Pencarreg ac EDWIN, unig fab Mr. a Mrs. Evans, Cilgell-isaf, Pencarreg. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Ellis Jones gyda chynorthwy y Parch. T. O. Williams, M.A. Hir oes, iechyd a hapusrwydd i'r ddeuddyn ifanc.

Mai 3, 1952 yng Nghapel Brondeifi unwyd mewn glân briodas, OWEN RUSSELL, mab Mr. a Mrs. Russell, Gellifelen, Pencarreg a CEINWEN EDWARDS, merch Mrs. Edwards a'r diweddar Isaac Edwards, Coedeiddig-fawr, Pencarreg. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Ellis Jones yn absenoldeb anorfod y gweinidog. Priodas dda i'r ddau !

Marwgofion

Ebrill 4, 1952 wedi cystudd hir bu farw EVAN DAVIES, annwyl briod Mrs. Davies, Arwel, Troedyrhiw, Dihewyd, Aberaeron yn 71 mlwydd oed. Gŵr cymwynasgar ydoedd ac iddo air da yn ei ardal fel gŵr caredig. Claddwyd ym mynwent Capel y Groes a gwasanaethwyd gan y Parchn. T. O. Williams, Brondeifi ac S. E. Bowen, Alltyplaca. Gadawodd briod a phlant heblaw nifer o berthynasau eraill a llu o ffrindiau i alaru o'i golli.

Bu farw ARTHUR W. RICHIARDS, J.P., O.B.E., Uchel Siryf Bwrdais Sirol, Londonderry, Iwerddon yn 61 oed. Yr oedd ei dad yn hannu o Ddyffryn Aeron ac yn Undodwr goleuedig a darllenwr cyson o'r Ymofynnydd hyd at ei farw ychydig flynyddoedd yn ôl. Gŵr cywir a mawr ei barch oedd Mr. Richiards ac yr oedd ef a'i dad yn adnabyddus iawn i lawer o gyfeillion Sir Aberteifi.

Mehefin 29, 1952 yn 74 mlwydd oed, bu farw JOHN IVOR REES, Tremolau, Cwmanne, Llanbedr wedi blynyddoedd o ddihoeni. Mab ydoedd i Mr. a Mrs. Rees, Talfoel, ei dad yn ysgrifennydd cyntaf Capel Brondeifi, a'r

teulu i gyd wedi bod yn ffyddlon yma. Amaethwr wrth ei alwedigaeth ydoedd, ond fe'i cofir yng ngwasanaeth yr Hen Ddoctor Abel Evans flynyddoedd yn ôl. Gŵr addfwyn a charedig ydoedd, yn rhoi ei amser i'w fferm ac i'w deulu. Yr oedd ei wên siriol yn addo croeso bob amser ac yr oedd yn llawn hiwmor iach. Ers blynyddoedd bellach yr oedd yn dihoeni ac ni allai ond ymlusgo gylch y clos. Gadawodd weddw a fu'n ofalus ohono, un mab, brodyr a chwaer i alaru o'i golli. Claddwyd ym mynwent Brondeifi a gwasanaethwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A. a'r Parch. Lloyd Jones, Ficer Pencarreg.

Gorffennaf 22, EVAN DAVIES, Gerallt, Pontshaen yn 83 mlwydd oed. Nid oedd ei iechyd yn dda ers rhai blynyddoedd ; dioddefai oddi wrth ddiffyg ar y galon. Mab Cefngwallter gerllaw Pontshaen ydoedd. Ymadawodd ef a'i briod a'r ardal hon a buont yn byw am lawer o flynyddoedd yn Foelallt, Ciliau Aeron. Yn y lle hwn bu ef a'i briod a'i blant yn ffyddlon gyda'r achos yng Nghapel Ciliau Aeron. Oblegid oedran a sefyllfa ei iechyd gorfu iddo ymadael o'r fferm a'i gwaith. Er iddynt ddod yn bobl ddieithr i Ciliau Aeron ni fu yr ardalwyr yno yn hir yn gweled eu bod yn bobl ag oedd gwirionedd ac uniondeb yn cyfrif ganddynt. Nid oedd amheuaeth barn gan neb o berthynas i gywirdeb meddwl ac egwyddor Mr. Davies, a chawsai ei air ei gymeryd gan bawb yn wirionedd. Ni ymadawodd teulu o ardal erioed a mwy o golled yn cael ei deimlo ar eu ôl na'r teulu hwn pan ymadawsant a Chiliau. Er cymaint y pellter o Giliau Aeron i Pontshaen mynych y clywsem fod rhywun o Ciliau wedi bod yn ymweled a'n brawd a'i deulu. Dywedir "os am barch bydd farw". Dyma un oedd yn barchus yn ei fyw. Er wedi marw, bydd yn llefaru eto yng Nghiliau Aeron ac ym Mhontshaen. Claddwyd ym mynwent eglwys Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan ei hen weinidog sef y Parch. Lewis Williams a chymerwyd rhan gan y Parchn. J. Marles Thomas, M.A., Pantydefaid ; T. Lloyd Jones, Tynygwndwn ; D. Williams Carmel ac hefyd gan Mri. Elwyn Davies, Pontshaen a Watkin Davies, Dewi Villa, Capel Dewi, dau fyfyriwr. Gadawodd weddw, pedwar mab yn briod, tair merch yn briod, un ferch gartref, un brawd-yng-nghyfraith ac amryw o wyrion a pherthnasau eraill mewn galar.

Gorffennaf 23, Mrs. ELIZABETH EVANS, Bermondsey, Llundain, yn 43 mlwydd oed. Merch ydoedd i Mrs. Catherine Davies a'r diweddar Thomas Davies, Blaencwm, Felinfach, Ceredigion. Bu yn wael am hir amser a chafodd gystudd poenus. Yr oedd wedi cael ei bendithio a thymer hapus, ac yr oedd ei sirioldeb wedi ei gwneud yn un ag oedd pawb yn hoff o'i chymdeithas. Yr oedd o ysbryd anturiaethus, ac ar ôl iddi ymadael a'r wlad, a bod yn Llundain am ychydig flynyddoedd cymerodd fasnachdy ar ei chyfrifoldeb ei hun, a bu yn llwyddianus iawn. Hoff ganddi oedd bod yn garedig i'r neb a fyddai mewn angen. Drwy fod felly yr oedd wedi ei gwneud ei hun yn barchus iawn. Bu yn briod ddwywaith. Gadawodd briod, un merch tua deg oed, ac un mab tua dwy oed, a mam, ynghyd ag un chwaer, dau frawd, tri ewyrth a neiaint mewn galar.

Newyddion yr Enwad

YR YMOFYNNYDD.—Diolch i'r cyfeillion sy'n dal i roi o hyd. Dyma'r enwau diweddaraf—Mr. a Mrs. Daff Davies, Penbryn Mawr, £1; Mr. Elgar Morgan, Trebanos, £1. Y mae pedair tudalen dros y lwans yn rhifyn Medi. Bydd rhaid cwtogi eto,

LLYFRAU'R ENWAD.—Y mae Mr. Haydn Morgan yn cloi cyfres o erthyglau yn y rhifyn hwn a mawr ddiolch iddo am lafurio mor galed a chasglu mor helaeth. Bydd yr ysgrifau yma o gymorth mawr 'rwy'n sicr i haneswyr ym myd cerddoriaeth grefyddol. A gaf i eich atgofio fod copïau o *Salmau'r Mynydd*, y llyfr emynau y mae'r erthyglau yma yn gefndir iddo ar werth o hyd. Cofiwch am hwn ac am *Hanes yr Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr* a *Welsh Unitarian Schoolmasters* wrth brynu llyfrau yn wobrwyon i'r plant eleni.

LLEN YR UNDODIAID YN Y CYFNODOLION.—Gwelir ysgrif gadarn gan y Prifathro J. D. Jones ar farn yr Undodwr ar "Uno'r Enwadau" yn *Y Genhinen* ddiwethaf. Mynnwch hon yn ddioed ac fe gewch doreth o bethau eraill at eich blas. Codwyd dwy erthygl o'r YMOFYNNYDD i'r *Crynhoad* diwethaf ac fe welir ysgrif gan y Golygydd ar "Sylfeini Undodiaeth" yn *Yr Aelwyd* nesaf, cylchgrawn Aelwydydd Urdd Gobaith Cymru.

Y CYRDDAU BLYNYDDOL.—Cafwyd hwyl dda a chynulleidfaoedd lluosog yn y Cyrddau Blynyddol a gynhaliwyd yng Nghapel y Bryn eleni. Ar y nos Fawrth dechreuwyd y cwrdd gan y Parch. Idris Davies (B), Sion a phregethwyd gan y Parch. R. I. Prichard, Trebanos. Prynhawn dydd Mercher, Mr. Watcyn Davies o Goleg Caerfyrddin a fu'n agor trwy ddarllen a gweddi, ac fe'i dilynwyd gan y Parchn. D. Jacob Davies a Lewis Williams ac fe gafwyd cryn hwyl wrth wrando ar y ddwy ysgol yn traethu barn groyw. Yn yr hwyr pregethodd y Parchn. Marles Thomas a J. D. Jones ac fe agorwyd y gwasanaeth gan y Parch. T. Eynon Evans, brodor o'r cylch sydd yn weinidog gyda'r Annibynwyr ym Merthyr ar hyn o bryd. Credir fod y Cyrddau yn gwella yn y blynyddoedd diwethaf hyn ac fe saif y cyfarfodydd yma o ran rhif y gwrandawyr a grym y pregethu yn uchel ar y rhestr.—Cyfarfu'r Pwyllgor Blynyddol fore dydd Mercher, 13 o Awst, a daeth mwy nac arfer i'r cwrdd yma hefyd. Llywyddwyd gan y Prif Athro J. D. Jones, B.A., B.D. yn absenoldeb Mr. D. T. Williams, Aberdâr y llywydd am y flwyddyn ddiwethaf. Arweiniwyd y cyfarfod mewn gweddi gan y Parch. D. Jacob Davies. Yn gynnar ben bore clywyd llais y Trysorydd newydd, Mr. D. E. G. Davies, M.R.C.V.S., a pheidier a'm camddeall pan ddywedaf fod tinc ariannaidd hyfryd ynddo. Ceisiodd gan y cynulleidfaoedd ddanfon eu cyfraniadau iddo yn gynnar fel y medrai gloi'r cyfrifon yn daclus ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ôl yr hanes yr oedd mwy na 'un dyn bach ar ôl' erbyn hyn. Cyfeiriodd y Llywydd at wasanaeth hir a da y cyn-drysorydd, Mr. David Jones, Maesyrhaf, a'r modd y gweithiodd mor galed i gael dau pen llinyn y gymdeithas i gwrdd. Bu ei ymdrech yn llwyddiant mawr a mynegodd y

Gymdeithas ei diolchgarwch gwresocaf iddo. Rhoddodd y Prifathro adroddiad ar waith y myfyrwyr yng Ngholeg Caerfyrddin, y tri ohonynt, sef Mr. Elwyn Davies yn awr yng Ngholeg Abertawe, Mr. Basil Hopkin ar derfyn ei gwrs yng Nghaerfyrddin ac yn mynd i Rydychen am ddwy flynedd a Mr. Watcyn Davies sy'n aros yn yr Athrofa. Cafwyd gair da i'r tri. Rhoddodd y Parch. J. Marles Thomas adroddiad ar Banteg. Ef yw trefnydd y gwasanaethau yno ac fe gynhaliwyd tri gwasanaeth yno eleni a bwriedir cynnal rhagor cyn diwedd y tymor. Dywedodd fod y Parch. S. E. Bowen wrthi yn barod yn casglu at atgyweirio'r lle ac fe gefnogodd y Pwyllgor ei apêl am gyfraniadau a hefyd apêl Parcyfelfed at yr atgyweirio yno. Eglurodd y Golygydd rai materion ynglŷn â'r YMOFYNNYDD a gofynnodd am gefnogaeth iddo ym mhob eglwys. Apeliodd hefyd am ysgrifenwyr newydd yn enwedig o blith y do ifanc na ddylai fod unrhyw anhawster iddynt ysgrifennu ysgrifau byr a diddorol. O blith y miloedd, un ysgrifennwr newydd a ymddangosodd ar y maes yn ystod blwyddyn gron. Gwnaethpwyd y grantiau canlynol: I'r G.A., £10; Parc y Felfed, £10; Aberystwyth, £10; Dyma'r swyddogion am y flwyddyn nesaf: Llywydd, y Prifathro J. D. Jones; Is-Lywydd, Mr. Griffith Davies, C.S., Llwynrhydowen; Ysgrifennydd, y Parch. S. E. Bowen,; Trysorydd, Mr. D. E. G. Davies; Archwiliwr, Mr. David Davies, Sychdy. Mynegodd y Llywydd yn ddwys iawn gydymdeimlad y Gymdeithas â Mr. D. T. Williams, Aberdâr, y Llywydd am y llynedd yn ei afiechyd a dymunwyd iddo adferiad buan a llwyr. Yr oedd pawb yn falch o dderbyn ei neges a ddaeth yn ddiweddarach yn y dydd. O dan 'unrhyw fater arall' daethpwyd i drefn ynglyn a threuliau siaradwyr a phregethwyr ac fe apeliodd y Parch. Marles Thomas am fwy o gefnogaeth i'r Gymdeithas a chyd-weithrediad llwyrach rhyngddi â'r eglwysi. Cynigiodd ein bod yn danfon agenda'r pwyllgorau i'r cynulleidfaoedd ymlaen llaw fel y gallai cynrychiolwyr fynegi barn ei capel a rhoddodd rybudd ei fod am godi eto yn nes ymlaen y mater o estyn cyfnod y Lywyddiaeth i ddwy flynedd.

DYDDIADUR GELLIONNEN A'R GRAIG.—*Chwefror* 21, Cyflwynwyd rhywbeth newydd i ni yn Neuadd y Graig y nos hon sef gwasanaeth crefyddol ar ffurf ddramatig. Cymdeithas ieuenctid capel Abertawe oedd yn gyfrifol am y gwaith. Siomedig oedd y gynulleidfa ac i'r ychydig yr oedd y mwynhad yn fawr. *Mawrth* 29, Ffair Sborion Cymdeithas y Bobl Ifainc, eu cynnig cyntaf. Ffrwyth eu llafur yn ystod misoedd y gaeaf oedd bron popeth ar y stondinau. Ymddiriedwyd y rhan agoriadol i Mrs. Jones, Tyn-y-Pant a gwnaeth hynny gydag araith bwrpasol. Bu'r fenter yn llwyddiant ac nid yn unig gwnawd digon o elw i gwrdd â gofynion yr ymweliad â'r Almaen, ond medrwyd trosglwyddo peth arian i drysorfa'r Eglwys. *Ebrill* 21, Yn y Neuadd eto. Rhoddwyd perfformiad o ddwy ddrama un act; cwmni Urdd y Benywod yn perfformio "Dail Tê" dan gyfarwyddyd Mrs. R. I. Pritchard a chwmni'r bobl ifainc yn perfformio "Birds of a Feather". Cafwyd amryw ddarnau gan y gerddorfa hefyd a llywyddwyd yn ddestlus gan Mrs. Lewis Morgan, Clydach. *Mai* 8, Aeth y Bobl Ifainc i Neuadd High St., Abertawe i dalu'r pwyth yn ôl, ac fe berfformiwyd dwy ddrama un act eto ac fe'u cynorthwywyd gan y gerddorfa. *Mehefin* 29, cynhaliwyd gwasanaethau y blodau, y bore yng

Ngellionnen a'r 'nawn a'r hwyr yng Nghapel y Graig. Y gweinidog oedd yn gwasanaethu fel arfer ac fe gafwyd cynulliadau cryf. *Gorffennaf* 6, Gwasanaeth o Fawl yn y capel ar y Mynydd a hynny o dan arweiniad Mr. I. E. Hopkin. Dewiswyd yr emynau a'r tonau o *Salmau'r Mynydd*. Cafwyd canu hwylus a noson hyfryd yng nghwmni ein cyndeidiau megis. *Gorffennaf* 12, Ymadawodd nifer o'n ieuenctid am yr Almaen lle deallwn iddynt gael croeso mawreddog. *Gorffennaf* 25, Dydd dychweliad ein pobl ifainc gan ddwyn pob un ei gyfaill, sef Almaenwr ifanc. Drannoeth rhoddodd pentref Trebanos groeso cyhoeddus i'r ymwelwyr. Yr un noson rhoddwyd gwledd i'w croesawu yn neuadd y Graig. Eto trannoeth, croesawyd y cyfeillion gan gapel Abertawe. *Awst* 1, Cynhaliwyd cyngerdd cyd-wladol yn y Neuadd a hynodrwydd y cyfarfod oedd ei gymysgedd—darnau Cymraeg, Saesneg ac Almaeneg yn gymysg a iaith fyd-eang miwsig yn clymu pawb yn un. Ni cheir y fraint hon yn aml. *Awst* 1, Dydd Sul. Sul bythgofiadwy i gyfeillion Gellionnen a'r Graig fydd hwn—Sul *cyfarfodydd mawr* yng ngwir ystyr y gair. Cynhaliwyd y cwbl o'r gwasanaethau gan ein ieuenctid a'r Almaenwyr bob yn ail. Yng nghyfarfod yr hwyr rhoddwyd croeso i'r Almaenwyr ar ran y Bwrdd Lleol gan y Cadeirydd a'r Clerc, hefyd estynnodd Mr. T. Evans, yr aelod Sirol ei groeso. Rhoddwyd sosial ymadawol i'r cyfeillion ar ddydd Gwyl y Banc yn y capel ar y mynydd. Daeth tyrfa dda ynghyd i ddymuno'n dda iddynt. Da oedd gweld tri chyfaill o Highgate yno. Fel diweddglo anrhegwyd yr Almaenwyr a rhyw rodd fechan i gofio amdanom.

LLONGYFARCHION.—Llongyfarchion cynnes i'r plant hynny sydd wedi llwyddo yn ei arholiadau ysgol y mis diwethaf. Nid teg fyddai enwi neb heb enwi pawb o blant ein capeli. Mawr yw eich braint, a dringwch i gadair angel. Peidied y rhai a fethodd y tro cyntaf a digalonni chwaith, nid oes clo ar y drws a rhaid curo eto. Curo'n ddyfal a wnaeth Arnallt Lewis o Aberdâr gan ennill gradd o B.Sc. drwy ei ymdrechion ar ôl dydd o waith.

CAPEL Y CWM.—Nos Sul, Awst 10, tan arolygiaeth Mr. Rhys Davies, Y Felin, Cwrtnewydd, a Mr. Evan Lloyd Jones, Cartref, Llanybydder, dewisiwyd yn ddiaconiaid Mrs. Meredith Williams, Woodlands, Alltyplaca a Mr. David Jenkins yr hwn sydd yn fab i nai y diweddar Barch. John Davies, gweinidog cyntaf yr achos yng Nghapel y Cwm. Y Sul dilynol cafwyd anerchiad gan y gweinidog ar le a gwaith diaconiaid mewn cynulleidfa, a chroeso i'r diaconiaid newydd.

DYDDIADAU CYFARFODYDD I'W COFIO.—(1) Cwrdd Dad-or chuddio Maen Coffa i'r diweddar Barch. E. R. Dennis yn yr Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, Nos Fercher, 24 o Fedi am 7 o'r gloch. (2) Cwrdd Croesawu y Parch. D. Jacob Davies i weinidogaeth yr Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, Nos Iau, 25 o Fedi am 7 o'r gloch. (3) Cyfarfodydd Sefydlu y Parch. Aubrey Martin, Stockton-on-Tees yn weinidog Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa,—yn y *Bwlch*—Nos Fawrth, Medi 30 : Parchn. D. Jacob Davies a T. O. Williams.

Llwyn—Prynhawn Mercher : Cwrdd Croeso ; Hwyr Mercher : Parchn. Islwyn Pritchard a J. D. Jones. Llywydd : Y Parch. J. Marles Thomas.
(4) Cwrdd Dathlu Can Mlwyddiant a Hanner Capel Pantydefaid,—Awgrymir yn awr y 21ain a'r 22ain o Hydref gan gyfuno â Chyrddau'r Hydref.

LLWYDDIANT CWRTNEWYDD YN ABERYSTWYTH.—Llongyfarchion i Gledlyn am ei waith da gyda'r cywydd ac i barti ysgol Cwrtnewydd a'i hathrawes am orchfygu unwaith eto.

ERRATA.—"Salmau'r Mynydd Ddoe ac Echdoe", S. "Eglwys Loegr", darllener fel hyn, *Tracts for the Times*. S. "Iolo Morganwg", gan Haydn Morgan, darllener bod Salm-dôn yn rhoi sain i bob sillaf.

PANTYDEFAID.—Anodd adfer hen arferiad, eithr pan fo digon o serch at yr achos y mae popeth yn bosibl. Ar ôl i rai blynyddoedd fyned heibio, ail-gychwynwyd gwledd dê y Gynulleidfa eleni. Yn gynnar yn y †wyddyn trefnwyd bod un i fod, ond y cwestiwn llosg oedd—"Sut oedd bwrw ati ?" Ond diolch am gymwynaswyr da. Yn union wedi clywed am y bwriad, daeth yr addewid gwresog o Byllau'r Bryn y gwnaent hwy fel teulu roddi'r tê am y tro. Bu disgwyl mawr, felly, am Sadwrn y 31ain o Fai. Rhyw edrych yn ôl y sydd yn awr, a chofio am y wledd ardderchog. Diloch o galon i Mr. a Mrs. Lloyd a'r teulu, ac yn eu plith Thomas Lloyd ac yntau dros ei 90 oed. Ni chafwyd gwledd ers tro fel hon. Er i'r hin fod yn anffafriol daeth tyrfa luosog ynghyd drwy gydol y prynhawn a'r hwyr i gwynhau'r danteithion. Huliwyd y byrddau yn llwythog a'r pethau gorau, a'r teulu dedwydd fel arfer yn llawn croeso i gyd. "Rhaid bod Mrs. a Mr. Lloyd a'r teulu wedi aberthu a llafurio'n galed ar gyfer y fath wledd," meddai pobl. Tystiai'r plant na chawsant y fath "bethe neis" erioed o'r blaen. Nid rhyfedd felly i bawb fod yn eu hwyliau gorau,—yn enwedig yr "Hen ŵr ifanc sy'n gwrthod mynd yn hen." Wedi i bawb gyfranogi o'r danteithion, cynhaliwyd Cyngerdd yn yr hwyr dan arweinyddiaeth y Gweinidog, a'r Tad a'r Mab yn llanw y ddwy gadair bwysig ar y llwyfan, a chafwyd rhaglen ddiddorol gan y plant a'r bobl ifainc. Talwyd y diolchiadau dros y gynulleidfa i'r teulu caredig am y fath dê gan Mrs. Maria Davies, Tancapel a Mrs. Jones, Rhydowenfach. (Pwy, tybed, a rydd dê y flwyddyn nesa' ?).

MIS MAI.

Englyn "Beirdd Morgannwg" ar y pryd yn 'Ymryson y Beirdd' ar y radio).

DYGYFOR ei gôr a garaf—â'i law
Lliwia lwyn yn araf ;
A'r gwanwyn ar ei geinaf
Yn wyrth o rwysg, porth yr haf !

J. D. LEWIS A'I FEIBION CYF., LLANDYSUL.